***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1565 (Cy.180)

# HARBYRAU, DOCIAU, PIERAU A FFERÏAU, CYMRU

## Gorchymyn Grymuso Harbwr Saundersfoot 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *21 Mehefin 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Gorffennaf 2011* |

Mae William Cleevely, Rosemary Hayes, Jim Codd a Phil Baker, sef y personau sydd ar hyn o bryd yn rhedeg ymgymeriad harbwr Saundersfoot, wedi gwneud cais am orchymyn grymuso harbwr o dan adran 16 o Ddeddf Harbyrau 1964(**1**);

Ni wnaed unrhyw wrthwynebiad i'r cais yn unol â hysbysiad a gyhoeddwyd yn unol â pharagraff 10(1) o Atodlen 3 i Ddeddf Harbyrau 1964;

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni fel y crybwyllir yn is-adran (5) o'r adran 16 a enwyd;

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 16(2) o Ddeddf Harbyrau 1964 ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

(**1**) 1964 p.40; diwygiwyd adran 16 gan Ddeddf Trafnidiaeth 1981 (p. 56), adran 18 ac Atodlen 6, paragraffau 3, 4(1) a 14, a chan Ddeddf Trafnidiaeth a Gweithfeydd 1992 (p.42), Atodlen 3, paragraff 2.

(**2**) O.S. 1999 Rhif 672, fel y'i haddasir gan erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2000 (O.S. 2000 Rhif 253) ac Atodlen 3 iddo, ac fel y'i cymhwysir gan baragraff 26 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).